Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Manwerthu, hamdden a lletygarwch i dderbyn 50% o ryddhad ardrethi annomestig yn 2022-23

Fel rhan o gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2023 ddoe, cyhoeddwyd rhyddhad ardrethi annomestig o 50% drwy gydol 2022-23 ar gyfer trethdalwyr manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru (wedi'i gapio ar £110,000 y busnes). I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rhyddhad-ardrethi-annomestig-i-fusnesau-yn-2022-23

Mae manylion pellach am y Gyllideb Ddrafft 2022-23 ar gael ar:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyllideb-ddrafft-2022-23

# COVID-19: Gwybodaeth a Chanllawiau Diweddaraf

Dydd Gwener diwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y newidiadau canlynol i reoliadau Coronafeirws:

- Bellach mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i ganiatáu i'w gweithwyr weithio gartref os yn bosibl ac mae'n ofynnol i weithwyr wneud hynny lle bo hynny'n ymarferol

O 27 Rhagfyr 2021:

- Bydd set newydd o fesurau rhesymol ar gyfer busnesau a gwasanaethau, gan gynnwys rheol newydd ar gadw pellter cymdeithasol o 2m. Bydd angen i siopau, busnesau a gweithleoedd wneud newidiadau, gan gynnwys mesurau ychwanegol, megis systemau unffordd a rhwystrau corfforol

- Bydd rhaid i glybiau nos gau

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru neithiwr y bydd digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru yn cael eu chwarae y tu ôl i ddrysau caeedig o Ddydd San Steffan ymlaen. I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/chwarae-digwyddiadau-chwaraeon-y-tu-ol-i-ddrysau-caeedig-wrth-i-achosion-omicron-godi

Mae cynnal asesiad risg coronafeirws a gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws rhag lledaenu yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau. Mae'r wybodaeth, canllawiau a chyngor diweddaraf ar gael yn:

https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws
https://llyw.cymru/coronafeirws
https://llyw.cymru/cadwn-ddiogel-dros-nadolig

# COVID-19: Brechu

Gellir bellach archebu brechiadau, gan gynnwys pigiadau atgyfnerthu, ar-lein (dylai'r rhai sydd eisoes ag apwyntiad y mis hwn gadw at eu hapwyntiad presennol). Am fwy o wybodaeth, ac i archebu, ewch i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/

Fel bob amser, mae galw ar gyflogwyr i ganiatáu i staff gymryd amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau brechu rhag COVID-19.

# IECHYD & DIOGELWCH: Peryglon gwaith coed brys

Mae tywydd eithafol wedi achosi problemau ledled y wlad yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda choed a changhennau wedi disgyn yn achosi llawer o aflonyddwch. Gellir dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad ar wneud gwaith coed yn ddiogel yn:

https://www.hse.gov.uk/treework/

# BREXIT: Cael cyfeirnod symud nwyddau

O 1 Ionawr 2022 ymlaen, bydd angen i gludwyr ddefnyddio'r Gwasanaeth Symud Cerbydau Nwyddau i gael unrhyw nwyddau maent yn eu symud drwy borthladd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth, drwy'r tollau. Mewn porthladdoedd sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Symud Cerbydau Nwyddau i reoli nwyddau, bydd angen i gyfeirnodau'r datganiadau a gyflwynwyd ymlaen llaw gael eu cysylltu â'i gilydd o fewn un cyfeirnod symud nwyddau (GMR). Mae canllawiau ar:

https://www.gov.uk/guidance/register-for-the-goods-vehicle-movement-service.cy

https://www.gov.uk/guidance/get-a-goods-movement-reference.cy

## TRETH: Peidiwch ag anghofio datgan grantiau COVID-19 ar eich ffurflen dreth

Mae Cyllid a Thollau EM yn atgoffa cwsmeriaid a dderbyniodd daliadau grant COVID-19 yn ystod y flwyddyn dreth 2020 i 2021 y dylent eu datgan yn eu ffurflen dreth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3mbPZRj

## DIGWYDDIADAU: Gweminarau Busnes Cymru

Mae gan Fusnes Cymru ystod o weminarau ar gael. Yn gynnar ym mis Ionawr 2022, bydd y rhain yn cynnwys; cychwyn busnes, tendro a nifer o weithdai ar wneud y gorau o ddigidol. Am fwy o wybodaeth ac i archebu ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru